**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2024-25.**

**WGDB_24-25 07 : Ymateb gan: Cymdeithas Alzheimer's Cymru | Response from: Alzheimer's Society Wales**

Owain Roberts
Clerc, Pwyllgor Cyllid y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost: SeneddFinance@Senedd.Wales

Gyda'n gilydd, byddwn yn cynnig help a gobaith i bawb sy'n byw gyda dementia
Together we are help & hope for everyone living with dementia

Alzheimer's Society Cymru
Rhan llawr 1 af/Part 1st Floor
Ty Millgrove/Millgrove House,
Parc Ty Glas, Llanishen,
Caerdydd/Cardiff, CF14 5DU
alzheimers.org.uk

Dydd Llun, 20[ain] o Dachwedd

Annwyl Owain,

**Cyflwyniad Alzheimer's Society Cymru: Ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid y Senedd ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

Mae Alzheimer's Society Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 cyn y cyhoeddir y Gyllideb ddrafft fanwl ym mis Rhagfyr.

Alzheimer's Society yw prif elusen ddementia'r Deyrnas Unedig. Darparwn wybodaeth a chymorth, rydym yn gwella gofal, rydym yn ariannu ymchwil, ac yn creu newid parhaol i bobl sy'n byw â dementia yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon. Ein cenhadaeth yw creu cymdeithas lle y caiff y rheiny sy'n byw â dementia eu cynorthwyo i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cael at ofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n diwallu'u hanghenion unigol.

Mae'n rhaid i ddementia fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru i ddiwallu anghenion y nifer cynyddol o bobl sy'n byw â diagnosis o ddementia. Rydym yn bartner allweddol gyda datblygu a monitro'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia, ac rydym yn gweithio gyda chyrff y GIG a rhanddeiliaid eraill i wella gwasanaethau dementia trwy gydgynhyrchu â'r rheiny sydd â phrofiad wedi'i fyw.

Mae ansawdd gwasanaethau dementia cenedlaethol yn allweddol i ddiwallu anghenion y 50,000 o bobl sy'n byw â dementia yng Nghymru, a daroganir y bydd yn codi 70% i fwy na 79,000 o bobl erbyn 2040[1].

Gyda nifer y bobl sy'n byw â dementia yn codi, llai o gynhwysedd mewn gwasanaethau gofal iechyd a system gofal cymdeithasol sy'n dibynnu ar ofalwyr di-dâl, mae Alzheimer's Society Cymru yn

[1] Raphael Wittenberg, Bo Hu, Luis Barraza-Araiza, Amritpal Rehil, Canolfan Bolisi a Gwerthuso (CPEC) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE), Rhagamcaniadau o bobl hŷn sydd â dementia a chostau gofal dementia yn y Deyrnas Unedig, 2019–2040 (2019). Ar gael yn: https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/2019-11/cpec_report_november_2019.pdf

Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (296645) ac ar Ynys Manaw (1128)
Cwmni cyfyngedig gan warant, cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (2115499) ac ar Ynys Manaw (5730F)
Swyddfa gofrestredig: 43-44 Crutched Friars, London EC3N 2AE.

Alzheimer's Society is a registered charity in England and Wales (296645) and the Isle of Man (1128).
A company limited by guarantee and registered in England and Wales (2115499) and the Isle of Man (5730F).
Registered office: 43–44 Crutched Friars, London EC3N 2AE.

pwysleisio'r angen i Bwyllgorau'r Senedd roi ystyriaeth neilltuol i anghenion pobl sy'n byw â dementia wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, yn neilltuol yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio.

Yn neilltuol, amlygwn y pwysigrwydd o barhad mewn cyllid ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia (y Cynllun Gweithredu) ac ar gyfer yr ymgynghoriad gofynnol ar Gynllun Gweithredu newydd yn ystod 2024, dyraniad uwch o arian ar gyfer yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar gyfer mwy o gyllid i lwybrau diagnosis, a gânt eu hamlinellu'n fanylach isod.

### Gweithredu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia

Ategir gweithrediad Cynllun Gweithredu cyfredol Llywodraeth Cymru gan £12 miliwn o gyllid blynyddol i Fyrddau Partneriaethau Rhanbarthol (RPBs) i sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei hintegreiddio ledled gwasanaethau i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol.

Gyda'r hinsawdd ariannol gyfredol yn gorfod esgor ar effeithlonrwydd mewn arbedion oherwydd chwyddiant a phandemig y clefyd COVID-19, mae Alzheimer's Society Cymru yn amlygu'r pwysigrwydd o ddiogelu'r cyllid blynyddol gwerth £12 miliwn ar gyfer Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, yn neilltuol gan fod y galw am wasanaethau dementia yn parhau i gynyddu yn unol â chyffredinrwydd cynyddol dementia ledled y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod cyllid yn cael ei gynyddu lle y bo'n bosibl i wrthbwyso effaith chwyddiant a chostau uwch darparu'r gwasanaeth, a byddem yn croesawu rhagor o fanylion am unrhyw gynlluniau i adolygu cyllid blynyddol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gweithredu.

Gwnaed ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Gweithredu newydd yn 2024. Bydd yn bwysig i sicrhau y caiff cyllid digonol ei ddyrannu i ganiatáu ymgynghori cydnerth ar y Cynllun Gweithredu newydd o fewn Cyllideb 2024/25, a ddylai gynorthwyo ymglymiad a chyfranogiad pobl yr effeithir arnynt gan ddementia, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector, fel rhan o wneud dementia yn flaenoriaeth yng Nghymru.

### Cyllid ar gyfer yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Byrddau Iechyd Lleol

Mae Alzheimer's Society Cymru yn croesawu'r £407.3 miliwn o gynnydd net fel rhan o Brif Grŵp Gwariant (MEG)[2] Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24. Er bod Llywodraeth Cymru wedi dynodi y defnyddir y cyllid ychwanegol i gynorthwyo i gyflenwi 'Gwasanaeth Craidd y GIG', ac mae manylion dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol (LHBs)[3] wedi'u darparu, rydym yn awyddus

---

[2] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24 Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig Gweinidogion i Bwyllgorau Craffu'r Senedd ar ddyraniadau o fewn pob un MEG (2022). Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/ministers-written-evidence-to-senedd-scrutiny-committees-2023-2024-v1.pdf

[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig ar Ddyraniadau Byrddau Iechyd Lleol a Chyfansymiau Rheoli Targedau (2023). Ar gael yn: https://www.gov.wales/written-statement-lhb-allocations-and-target-control-totals?utm_source=rss-announcements&utm_medium=rss-feed&utm_campaign=announcements-Written+Statement%3A+LHB+Allocations+and+Target+Control+Totals

i gyllid ar gyfer gwasanaethau dementia gael ei ddiogelu cymaint â phosibl, gan fod Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio i fynd i'r afael â diffygion gwaelodol yn unol â rheolau targed.

Bydd diogelu gwasanaethau dementia yn helpu i sicrhau bod gan bobl sy'n byw â dementia fodd o gael at ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion, gan y gall unrhyw doriadau i wasanaethau rheng flaen arwain at gynnydd mewn pobl yn mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ddiangen, at ddiffyg modd o gael at ofal o ansawdd mewn lleoliadau yn y gymuned, ac arwahanrwydd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae'n bwysig i gymorth priodol fod ar waith i gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni yn erbyn eu targedau rheoli unigol, ac y gellir ailgloriannu mesurau rheoli diffygion fel y bo'n briodol i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen lle y bo'n angenrheidiol.

### Cyllid ar gyfer yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gofal Cymdeithasol

Bydd hi hefyd yn bwysig ailddechrau rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru ac er mwyn parhad mewn cyllid ar gyfer y broses ymgynghori tuag at ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Mae'r system gofal cymdeithasol yn parhau mewn sefyllfa nad yw'n cael digon o adnoddau, gyda nifer uchel o swyddi gwag heb eu llenwi, diffyg datblygiad gyrfa a hyfforddiant, a dibyniaeth ar staff asiantaethau sy'n arwain at gostau uwch o ran gweithlu. Mae Arolwg Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru 2023 yn nodi bod 5,323 o swyddi gwag heb eu llenwi, sy'n cynrychioli 9% o gyfanswm y gweithlu[4], gan amlygu'r angen am werth cyfartal a chydraddoldeb cyllid gyda'r GIG ar gyfer adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau.

Byddem hefyd yn croesawu rhagor o fanylion am unrhyw gyllid a ddyrannwyd i Awdurdodau Lleol i wella cadw gafael ar y gweithlu a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, ac i wella modd o gael at gymorth i ofalwyr di-dâl sydd, gyda'i gilydd, yn darparu gwerth £10.1 biliwn o ofal i'r economi yng Nghymru[5].

### Cyllid ar gyfer Llwybrau Diagnosis

Rydym hefyd yn awyddus am unrhyw ddiweddariad ar gynnydd y buddsoddiad £25 miliwn i wella seilwaith diagnosis ac argaeledd Peiriannau Sganio PET-CT, fel a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021[6]. Bydd y peiriannau sganio newydd yn hanfodol i wella modd o gael at wasanaethau diagnosis cenedlaethol, cynyddu cyfradd genedlaethol diagnosis o ddementia a hwyluso mynediad at ofal a chymorth ar ôl diagnosis i bobl sy'n byw â dementia.

---

[4] Gofal Cymdeithasol Cymu, Dengys adroddiad newydd fod bron i 85,000 o bobl yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru (2023). Ar gael yn: https://socialcare.wales/news-stories/new-report-shows-almost-85-000-people-work-in-the-social-care-sector-in-wales

[5] Carers UK, Adroddiad Ymchwil Gwerthfawrogi Gofalwyr (2021). Ar gael yn: https://www.carersuk.org/media/2d5le03c/valuing-carers-report.pdf

[6] Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru i fuddsoddi bron i £25 miliwn mewn pedwar peiriant sganio digidol newydd i gwtogi amseroedd aros ac i ddiwallu'r galw am y gwasanaeth (2021). Ar gael yn: https://www.gov.wales/welsh-government-invest-nearly-ps25m-four-new-digital-scanners-cut-waiting-times-and-meet-service

Er bod y Cynllun Gweithredu'n amlinellu cynlluniau i bennu targed i Fyrddau Iechyd Lleol i gynyddu cyfraddau diagnosis 3% y flwyddyn[7], mae'r diffyg data diagnosis o ddementia cyson yn genedlaethol ac yn rhanbarthol yng Nghymru yn cyfyngu ar i ba raddau y gellir mesur cynnydd, a darpariaeth cymorth wedi'i dargedu lle y bo'i angen.

Mae Alzheimer's Society Cymru yn pwysleisio'r angen am gyllid ychwanegol penodedig i wella llwybrau diagnosis, a'r angen i gasglu a chyhoeddi data diagnosis rheolaidd o ddementia (yn cynnwys yn ôl is-deip) i gau'r bwlch diagnosis ac i wella mynediad at ofal o ansawdd ar ôl diagnosis.

Er ein bod yn ymwybodol o argaeledd cyfyngedig cyllid ychwanegol o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol y mae'r holl Fyrddau Iechyd Lleol yn gweithredu ynddi, a hwythau wedi mynd dros ben eu hawdurdod i wario[8], byddem yn croesawu unrhyw ragor o fanylion am y pwyntiau a amlygir uchod. Mae'n hanfodol i wasanaethau dementia ddal i gael eu hariannu'n briodol drwy gydol y cyfnod Cyllidebol nesaf ac i ddementia gael ei gydnabod fel blaenoriaeth i'r GIG.

Gadewch imi wybod, os gwelwch yn dda, am unrhyw gwestiynau mewn ymateb i'n cyflwyniad ysgrifenedig, a diolch am y cyfle i ymateb i Alwad y Pwyllgor am Wybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir,



**Laura Courtney**
**Rheolwr Dylanwadu Cenedlaethol – Cymru**
**Alzheimer's Society Cymru**

---

[7] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022, tud.16 (2018). Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/dementia-action-plan-for-wales.pdf

[8] Archwilio Cymru, Chwe bwrdd iechyd yn torri dyletswydd adennill costau ynghanol pwysau ariannol ehangach (2023) Ar gael yn: https://www.wao.gov.uk/news/six-health-boards-breach-break-even-duty-amid-wider-financial-pressures